**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref HL/00739/13

William Powell AM
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

9 Gorffennaf 2013

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin ynglŷn â'r deiseb a dderbyniwyd gan David Fitzpatrick, sydd yn gwrthwynebu'r gofyniad gorfodol ar ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i astudio'r Gymraeg hyd at lefel TGAU.

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o gynnal adolygiad o drefniadau asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Mae grŵp annibynnol ychwanegol yn adolygu Cymraeg ail iaith, ac yn benodol, yn ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i addysgu ac asesu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Bydd yr adolygiad hwn yn dod i ben ym mis Medi 2013, a disgwyliaf gyhoeddi'r adroddiad a'r argymhellion yn yr hydref. Bydd yr adolygiad o Gymraeg ail iaith yn cyfrannu at yr adolygiad o drefniadau asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae Mr Fitzpatrick wedi bod mewn cysylltiad gyda fy adran eisoes ac fe'i hysbyswyd am yr adolygiad o Gymraeg ail iaith mewn llythyr dyddiedig 2 Hydref 2012, ac mewn e-bost dilynol dyddiedig 5 Hydref. Byddaf yn tynnu sylw'r Grŵp Adolygu at y ddeiseb a byddaf yn gofyn i'r aelodau ystyried y mater wrth baratoi eu hargymhellion.

Best Regards
Huw

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*